

# Awdurdod Parc Cenedlaethol

19 Mehefin 2024

## Yn bresennol (yn bersonol)

Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)

Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd C George, Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd V Thomas, a'r Cynghorydd M Wiggins.

## Yn bresennol (o bell)

Dr M Havard, Mrs S Hoss, a'r Cynghorydd C Williams BEM.

## Hefyd yn bresennol:

Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Michel Regelous (Swyddog Cynllun Rheoli a Morol), Tim Buckle (Archwilio Cymru) ac Euros Lake (Archwilio Cymru).

[ Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell, 10.00yb – 12:00; 12:10pm – 13:20pm]

### 1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P Morgan a B Price.

### 2. **Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolwr Plantlife, Cyfarwyddwr Gwelliannau Bioamrywiaeth Plantlife Cyf ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond arhosodd yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau.

### 3. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 01 Mai 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd S Alderman, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 01 Mai 2024.

### 4. **Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd a chadarnhaodd y Prif Weithredwr bod hyfforddiant pellach i aseswyr yn cael ei gynnal a bod yr adolygiad yn parhau i fynd rhagddo.



Awgrymodd Aelod y dylid defnyddio terfynau amser penodol, ac osgoi acronymau er mwyn sicrhau eglurder ar y log gweithredu.

**Nodwyd.**

#### **4. Materion Personol**

Cafwyd munud o dawelwch er cof am fab aelod o staff fu farw mor drychinebus o drist mewn damwain ffordd.

#### **5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol:

- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Partneriaeth Natur Sir Benfro lle traddododd yr araith agoriadol.
- Uwchgynhadledd Twristiaeth Croeso Sir Benfro.
- Taith Astudio i'r Aelodau yng Nghastell Henllys a Choedwig Tŷ Canol.
- Cyfarfod o Gyd-Bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru.
- Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Parciau Cenedlaethol Cymru lle cafodd gyfle i ddiolch i Emyr Williams, Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri, am ei gyfraniadau cyn ei ymddeoliad yn fuan wedyn.
- Cyfarfod gyda Julie James AS i drafod materion megis Cynllunio, yr Ardoll Twristiaeth, adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu, a chyllid ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig.
- Cyfarfod gyda Clare Dowe, Cadeirydd Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i drafod materion megis Sioe'r Sir, Cynllun Rheoli'r Awdurdod, a gwirfoddoli.

**Nodwyd.**

#### **6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 24/04/2024;
- (ii) Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 28/02/2024;
- (iii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28/02/2024;
- (iv) Fforwm Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 18/03/2024;
- (v) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 17/04/2024;
- (vi) Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 16/04/2024 ac ar 30/04/2024;
- (vii) Pwyllgor Grantiau a gynhaliwyd ar 08/05/2024.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.



## 7. Adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu

Croesawodd y Cadeirydd Euros Lake a Tim Buckle o Archwilio Cymru a gyflwynodd ganfyddiadau allweddol adroddiad Archwilio Cymru ar Lywodraethu tri Parc Cenedlaethol Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb ac adroddiad manwl oedd yn ystyried y pump elfen allweddol canlynol: model a strwythurau llywodraethu, swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol o fewn y strwythurau hynny, diwylliant llywodraethu, y seilwaith i ategu llywodraethu effeithiol, a'r trefniadau i fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r llywodraethu.

Dywedwyd bod yr archwiliad wedi dod i'r casgliad bod y model llywodraethu ar gyfer yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn pennu fframwaith clir ar gyflawni'r swyddogaethau allweddol, ond bod gwendidau yn y modd y gweithredir y fframwaith yn peri risg i lywodraethu da. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr o dystiolaeth i ategu'r casgliad ac yn cynnig nifer o argymhellion. Amlygodd yr adroddiad bod gofyn cael ymateb sefydliadol, a gofynnwyd am farn yr Aelodau ar y mater hwn.

Mewn ymateb i'r adroddiad, mynegodd yr Aelodau yn unfryd eu siom ynghylch y canfyddiadau allweddol gan ddweud nad oedd yr adroddiad, yn eu barn hwy, yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng y tri Parc ac nad oedd yn ei dro yn amlygu gwaith a diwylliant Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rhoddodd yr Aelodau sawl enghraifft o'r modd nad oedd canfyddiadau'r archwiliad yn cydweddu â'r prosesau a'r llywodraethu o fewn yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn clustnodi'r gwendidau yn y prosesau dewis Aelodau etholedig a'r risg bosibl i lywodraethu da. Dywedwyd mai'r awdurdodau lleol oedd yn rheoli pwy oedd yn cael eu henwebu, ac yn aml, roedd Aelodau yn cael eu henwebu o wardiau etholiadol oedd y tu allan i ffiniau'r Parc Cenedlaethol ac nad oedd ganddynt felly lawer o gysylltiad â materion lleol a strategol sy'n effeithio ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mewn ymateb, mynegodd nifer o Aelodau eu hanghytundeb â'r canfyddiad hwn gan egluro nad oedd yn ofynnol iddynt, fel Aelodau'r Awdurdod, gynrychioli eu wardiau, ond i gydweithio i gynrychioli cymunedau Sir Benfro gyfan.

Mewn ymateb i nifer o'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, cadarnhaodd Swyddogion Archwilio Cymru bod pob un o'r canfyddiadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd. Roeddent yn cydnabod mai dim ond rhai o'r canfyddiadau oedd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac y byddai ymatebion sefydliadol hefyd yn cael eu ceisio gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol perthnasol.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd** ymgorffori barn yr Aelodau yn yr ymateb sefydliadol i'r



Archwiliad gyda drafft terfynol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r Aelodau ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 10:00yb – 10:10yb)

## 8. Ymgynghori ar y Cynllun Partneriaeth Drafft

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cynllun Rheoli a Morol a gyflwynodd gopi drafft ymgynghori o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ("Y Cynllun Partneriaeth") 2025-2029. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i amrywiol ddogfennau drafft ymgynghori, ac yn amlinellu manylion yr ymgynghori, y prosesau, yr amserlen a'r camau nesaf.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r enw newydd 'Cynllun Partneriaeth' a mynegodd Aelod bryder y gallai'r enw arwain at ddryswch ynghylch atebolrwydd. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog bod yr enw newydd wedi'i gynnig gan ei fod yn cyfleu natur a dibenion y cynllun yn well. Awgrymodd yr Aelod y dylid cyfeirio at Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod a chyfrifoldebau partneriaid yr Awdurdod yn yr adran 'Ynglŷn â'r Cynllun hwn' er mwyn cael eglurder. Awgrymwyd hefyd y dylid rhestru prif bartneriaid yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau'r arolwg ar Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol, a chadarnhawyd bod y canlyniadau wedi llywio sawl rhan o'r Cynllun. Tynnodd y Swyddog sylw at rai dyfyniadau o'r arolwg oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun drafft. Awgrymodd Aelod y dylid defnyddio dyfynodau, ac ystyried y dyluniad i ddangos bod y dyfyniadau hyn wedi'u cymryd o'r arolwg.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg fel atodiad, a dywedodd Aelod bod angen rhagor o waith i groesgyfeirio hyn o fewn y Cynllun. Rhoddodd yr Aelod enghreifftiau o'r modd y gellid cryfhau'r rhan hwn o'r cynllun, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun Partneriaeth Drafft yn dal i fod yn ddogfen ddeinamig a'i fod o'r farn y dylid diwygio'r ddogfen cyn iddi fynd allan ar gyfer ymgynghori i roi mwy o sylw i'r thema o leihau tlodi ac anghydraddoldeb, sef un o feysydd prosiect penodol Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion ymgorffori'r isod, yn ôl yr angen, yn y Cynllun Partneriaeth drafft ac yn yr Arfarniad o



Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol drafft, ac yn yr Adroddiad Cwmpasu terfynol:

- i) Argymhellion yr asesiadau o'r effaith (Atodiadau 4 i 8 i'r adroddiad hwn).
- ii) Canlyniadau'r adroddiad ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft (Atodiad 10 i'r adroddiad hwn).
- iii) Yr argymhelliad ychwanegol gan Footprint Ecology ynglŷn ag aralleirio polisi E1/K (gweler paragraff 29 o'r adroddiad).
- iv) Mân newidiadau yn ôl yr angen (megis gwallau teipio, cywiriadau ffeithiol).

2. Cytuno ar y dogfennau canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, yn amodol ar sylwadau a wnaed gan yr Aelodau yn y cyfarfod.

- i) Y Cynllun Partneriaeth Drafft 2025-2029 (Atodiad 2 i'r adroddiad hwn, wedi'i ddiwygio'n briodol yn unol ag Argymhelliad 1).
- ii) Y Rhestr o gwestiynau ymgynghori arfaethedig ar y Cynllun Partneriaeth drafft (Atodiad 3 i'r adroddiad hwn).
- iii) Asesiad Drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 4 i'r adroddiad hwn).
- iv) Asesiad Drafft o'r Rheoliadau Cynefinoedd (Atodiad 5 i'r adroddiad hwn).
- v) Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol Drafft (Atodiad 6 i'r adroddiad hwn, wedi'i ddiwygio'n briodol yn unol ag Argymhelliad 1).
- vi) Asesiad drafft o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Atodiad 7 i'r adroddiad hwn).
- vii) Asesiad Drafft o Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Atodiad 8 i'r adroddiad hwn).
- viii) Crynodeb o'r asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Atodiad 11 i'r adroddiad hwn).

3. Cytuno bod y canlynol yn cael eu cyhoeddi er gwybodaeth fel rhan o'r ymgynghoriad:

- i) Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar yr arolwg o'r Rhinweddau Arbennig (Atodiad 2 i'r adroddiad hwn).
- ii) Adroddiad Cwmpasu Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (Atodiad 9 i'r adroddiad hwn, wedi'i ddiwygio'n briodol yn unol ag Argymhelliad 3).
- iii) Adroddiad ar yr ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu (Atodiad 10).



## **9. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro a gyflwynodd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn amlinellu ei bod yn ddyletswydd statudol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar y modd yr oedd swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau wedi'u cyflawni, ac yn rhoi trosolwg o faterion ymddygiad.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ac yn ymdrin â phynciau megis hyfforddiant, cwynion, tueddiadau, protocol datrysiaid lleol, goddefebau, polisïau, yr adroddiad blynyddol i'r Ombwdsmon, a phenderfyniadau perthnasol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

O ran hyfforddiant, awgrymodd Aelod y dylid cydgysylltu'r sesiwn dan arweiniad hyfforddwr allanol ar y pwnc Llywodraethu, a nodwyd hyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

### **Nodwyd.**

## **10. Adroddiad Blynyddol ar gyrraedd Safonau'r Gymraeg**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i'r Aelodau ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Cadarnhaodd y Swyddog bod awgrymiadau wedi dod i law gan Aelod ynghylch naws y Crynodeb Gweithredol, a bod y sylwadau hyn wedi'u nodi.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ystadegau ar gyfer y wefan, a nodwyd y bu anghysondeb anesboniadwy fis Chwefror 2024. Awgrymodd Aelod y dylid dileu'r gair 'ymddangos' o'r frawddeg olaf o dan adran 3.5.1 a chynnwys brawddeg i egluro y byddai'r Awdurdod yn ymchwilio i achos yr anghysondeb.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys adran ar y Safonau sy'n ymwneud â Grantiau, ac awgrymodd Aelod y dylid cynnwys datganiad i gadarnhau bod pob cais, p'un a oedd wedi'i lenwi yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn cael ei drin yn gyfartal. Nodwyd yr awgrym gan y Swyddog.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys adran ar Ymgynghoriadau Cyhoeddus, a holodd Aelod a ellid cynnwys mwy o wybodaeth gan fod yr Awdurdod wedi gwneud gwaith sylweddol yn y maes hwn.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am y Safonau Gweithredol, ac awgrymwyd bod angen ystadegau i gryfhau'r adran hon a chynnwys cynllun gweithredu yn yr adroddiad i gofnodi meysydd i'w gwella.



Ar gynnig Dr R Heath-Davies, a eiliwyd gan Mr GA Jones, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amodol ar y diwygiadau uchod.

### 1 1. **Lleoliad cyfarfodydd adeg Ailddatblygu'r Ystafell Werdd**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am farn yr Aelodau ar leoliad cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu tra bod yr Ystafell Werdd yn cael ei hailddatblygu.

Pwysleisiwyd pe bai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal dim ond ar-lein, y byddai croeso i aelodau'r cyhoedd weld a mynychu cyfarfodydd drwy ddefnyddio'r offer technoleg gwybodaeth ym mhencadlys yr Awdurdod pe na baent yn dymuno defnyddio neu gael mynediad ar-lein yn eu cartref.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** cynnal cyfarfodydd o'r Awdurdod a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar-lein tra bod yr Ystafell Werdd yn cael ei hailddatblygu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gallai'r Aelodau gyfarfod wyneb yn wyneb dros y cyfnod hwn, byddai gweithdai a chyfarfodydd eraill nad oedd angen gwe-ddarlledu yn cael eu cynnal yn bersonol, lle bo modd.

### 12. **Papurau Electronig**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am farn yr Aelodau ar ddarparu copïau papur o agendâu a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau yn y dyfodol. Dywedwyd bod agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod ar hyn o bryd ar gael i'r Aelodau yn electronig ond hefyd ar ffurf copi papur os oedd gofyn. Roedd yr adroddiad yn egluro, o ganlyniad i ddatblygiadau mewn technoleg a goblygiadau costau ac ôl troed carbon, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ddylid diwygio polisi'r Awdurdod ar y mater hwn i ddarparu papurau electronig yn unig.

Dywedodd nifer o Aelodau y byddai rhai yn ei chael hi'n anodd cyfrannu at gyfarfodydd heb dderbyn papurau caled oherwydd diffyg offer TG a gyflwynir gan yr Awdurdod. Dywedodd Aelod hefyd y dylai'r Awdurdod ddarparu ar gyfer anghenion pob Aelod unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Hefyd cyfeiriwyd at iechyd a lles yr Aelodau yn sgîl yr effaith negyddol a achosir gan or-ddefnydd o sgriniau.

Trafodwyd nifer o opsiynau o'r ffordd ymlaen, ac ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Mrs J James, **penderfynwyd** y byddai'r papurau ar gael yn electronig, fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn ymateb i unrhyw ofynion penodol gan yr Aelodau i sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn mewn cyfarfodydd.



Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024.

Dywedwyd bod amser cychwyn y cyfarfod (10:30am) ac amser yr egwyl (12:00pm-12:10pm) wedi'u cofnodi'n anghywir.

Dywedodd yr Aelodau nad oedd geiriad Cofnod 7 yn amlygu yn ddigonol pa mor siomedig oeddent â'r adroddiad ac nad oedd yr adroddiad wedi crybwyll y drefn ragorol sydd gan yr Awdurdod o sefydlu a hyfforddi Aelodau, a llwyddiant yr Awdurdod i ennill Siarter Uwch am y gwasanaeth Cynorthwyo a Datblygu Aelodau.

